Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

DELFRYD. DYSG. CYMERIAD

Ysgol Dyffryn Nantlle

Pennaeth/ *Headteacher*
Mrs Alwen P Watkin B.A

Ffordd y Brenin
Pen-y-groes
Gwynedd LL54 6AA
Ffôn - 01286 880 345
Ffacs - 01286 881 953
E-bost - swyddfa@ydn.gwynedd.sch.uk
https://twitter.com/ydnantlle
http://ysgoldyffrynnantlle.org/

Cadeirydd y Llywodraethwyr 2019/20 Chair of Governors
Mr John Pollard
Cadeirydd y Llywodraethwyr 2018/19 Chair of Governors
Mrs Mari P. Jones

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 2018/2019

Annwyl Rieni,

Dyma gopi o Adroddiad Blynyddol Llawn y Llywodraethwyr i Rieni am y flwyddyn ysgol 2018-19. Mae copi Cymraeg a Saesneg ar gael ar safwe'r ysgol: www.ysgoldyffrynnantlle.org

Mae hawl gan rieni i alw cyfarfod i drafod yr adroddiad. Cysylltwch gyda mi yn yr ysgol os ydych yn dymuno gwneud hynny. Ni chynhelir y cyfarfod os oes llai na 10% o rieni (neu 30 rhiant pa un bynnag sydd leiaf) yn gwneud cais.

Yn gywir,

Elen Williams
Clerc y Llywodraethwyr

Ni chynhaliwyd cyfarfod blynyddol rhieni gyda'r llywodraethwyr yn 2018-19.

Os hoffech gael copi Saesneg o'r Adroddiad Blynyddol cysylltwch â'r ysgol.
If you would like an English copy of the Governors' Annual Report please contact the school.

ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19

Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni'r Ysgol. Crynodeb sydd yma o'r modd y cyflawnodd y Pennaeth a'r Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19.

AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHOL AM 2018/19

Cadeirydd y Corff: **Mrs Mari P. Jones**
Is-gadeirydd y Corff: **Mr John Pollard**
Clerc y Corff: **Ms Elen Williams**

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc drwy'r Ysgol:
Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6AA. 01286 880345

Cynrychiolaeth:	Enw:	Hyd at:
Pennaeth	Mrs Alwen Pennant Watkin	
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Janice Parry	31.08.2022
	Mr Raymond Williams	31.08.2022
	Mr Stephen Barnard	31.08.2022
	Mrs Sian Jones	31.08.2023
	Mrs Mari Powell Jones	31.08.2019
Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg	Cyng. Judith Humphreys	31.08.2021
	Mr Iolo Tudur Owen	31.08.2019
	Cyng. Craig ab Iago	31.08.2023
	Ms Angharad Lloyd-Williams	31.08.2022
Cynrychiolwyr Athrawon	Miss Clare McDermott	31.08.2020
	Mr Deiniol Tudur Davies	31.08.2020
Cynrychiolwyr Staff Ategol	Ms Jane Williams	31.08.2020
Cynrychiolwyr Cymunedol	Mr Glyn Owen M.B.E.	31.08.2020
	Mr John Pollard	31.08.2021
	Mrs Mary Hughes	31.08.2019
	Mr John Pritchard	31.08.2021

Cynhelir yr etholiad nesaf ar gyfer cynrychiolwyr y rhieni ym Medi 2022.

YR YSGOL

DATGANIAD O GENHADAETH

"Sicrhau addysg o'r ansawdd gorau posibl i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle, yn unol â'u hoedran, gallu a thueddfryd, er mwyn iddynt dyfu'n bersonoliaethau llawn, datblygu ac ymarfer eu holl ddoniau, a'u cymhwyso eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog ac Ewropeaidd."

ARWYDDAIR YR YSGOL

Dymunwn gefnogi'r uchod trwy gyfeirio at arwyddair yr ysgol, '**DELFRYD DYSG CYMERIAD'**, sy'n rhoi'r pwyslais ar fagu a meithrin cymeriad a phersonoliaeth. Ystyriwn hyn yn ganolog i waith a chenhadaeth yr ysgol.

NIFEROEDD DISGYBLION YR YSGOL 2018/19

Ym Medi 2018, roedd 417 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol.
Dechreuodd 70 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 ym Medi 2018 ac roedd 75 o ddisgyblion yn y Chweched Dosbarth (Blwyddyn 12/13).

PRESENOLDEB O OED YSGOL ORFODOL 2018/19

Absenoldebau Awdurdodedig	4.1%
Absenoldebau Anawdurdodedig	1.2%
Cyfanswm Absenoldebau	**5.3%**

CATEGORI IAITH

Ci yw Categori Iaith yr ysgol, sef ysgol ddwyieithog.

POLISI IAITH

Nòd yr ysgol yw hyrwyddo i'r graddau mwyaf posibl, ddatblygiad dwyieithog pob disgybl. Mae yn y polisi bwyslais ar integreiddio'r dysgwyr Cymraeg i gymdeithas Gymreig yr ysgol gynted ag y bo modd.

Anelir at sefyllfa lle y gall pob disgybl drafod y gwahanol bynciau mewn dwy iaith, a hyn yn ei dro yn atgyfnerthu dealltwriaeth y plentyn o'r pynciau eu hunain.

CYMRAEG FEL PWNC

Disgwylir i bob disgybl astudio Cymraeg hyd at ddiwedd blwyddyn 11, a sefyll yr arholiad priodol, iaith gyntaf neu ail iaith ar derfyn y cwrs.

IAITH CYFATHREBU

Cymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu yn yr ysgol, a chynhelir gwasanaethau boreol a gweithgareddau'r ysgol yn bennaf yn y Gymraeg.

CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Mae nifer a lleoliadau'r cyfleusterau ar gyfer y bechgyn a'r genethod ar wahân. Mae cyflwr a glendid y cyfleusterau yn cael ei fonitro a'u gweithredu yn ddyddiol.

GWYBODAETH I RIENI

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol gan y Pennaeth. Yn flynyddol cyhoeddir llawlyfr gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Gellir cael copi o swyddfa'r ysgol.

CWRICWLWM

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol o ran y pynciau statudol, y gofynion statudol eraill a'r elfennau anstatudol. Trefnir cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion gydag anawsterau dysgu, a hefyd i blant sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt.

DYDDIADAU TYMHORAU BLWYDDYN YSGOL 2019/20

Hydref 2019	*2 Medi 2019 – 20 Rhagfyr 2019*
Gwanwyn 2020	*6 Ionawr 2020 - 3 Ebrill 2020*
Haf 2020	*20 Ebrill 2020 – 20 Gorffennaf 2020*

Gwyliau:

Hanner tymor yr Hydref	*28 Hydref – 1 Tachwedd 2019*
Gwyliau'r Nadolig	*23 Rhagfyr 2019 – 3 Ionawr 2020*
Hanner tymor y Gwanwyn	*17 – 21 Chwefror 2020*
Gwyliau'r Pasg	*6 – 17 Ebrill 2020*
Calan Mai	*8 Mai 2020*
Hanner tymor yr Haf	*25 - 29 Mai 2020*
Gwyliau'r Haf	*21 Gorffennaf – 31 Awst 2020*

YSGOL IACH

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwyo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Gwyddoniaeth ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach wedi cyrraedd Cam 2 Ysgolion Iach Gwynedd ac yn gweithio i gwblhau Cam 3.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysfawr sydd yn manylu ar y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Cawn yr wybodaeth am anghenion disgyblion Blwyddyn 7 o'r ysgolion cynradd. Rydym yn awyddus i feithrin perthynas dda gyda rhieni disgyblion ADY.

Mae gennym ddarpariaeth lawn er mwyn cefnogi anghenion addysgu ein disgyblion. Bydd pob disgybl ADY yn cael ei fentora gan aelod o'r staff. Rhydd hyn gyfle i'r disgyblion rannu eu llwyddiannau a'u pryderon a thrafod eu cynnydd wrth ymgyrraedd at dargedau penodol. Cynhelir gweithgareddau dyddiol cefnogol - yn cynnwys, Cymhorthfa, Darllen ar y Cyd, Sesiynau Gwella Rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth gynhaliol.

Mae croeso i chi gysylltu â'r Cydlynydd ADY er mwyn trafod unrhyw agwedd o waith ADY yr ysgol.

AROLWG ESTYN

Ers Ionawr 2015, mae tîm o arolygwyr Estyn wedi ymweld yn dymhorol i fonitro'r cynnydd a waned ers yr Arolwg Craidd.

Yn ystod Hydref 2016, bu i dîm o arolygwyr o dan arweiniad Delyth Gray, Arolygydd Cofnodol ymweld â'r Ysgol i fonitro'r cynnydd ers Gorffennaf .
Barnwyd bod yr Ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad Adran 28 a phenderfynwyd tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

CYFARFODYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Wrth gyflawni eu dyletswydd cyfarfu'r Corff Llywodraethol fel a ganlyn yn ystod 2018/19:

6:00yh – Nos Fawrth – 18 Medi 2018 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Ethol Swyddogion am y flwyddyn academaidd i ddod
- Cyflwyniad ar y Strategaeth Ymddygiad Da
- Cyflwyniad ar y cwricwlwm Llwyddo gyda Bl.9
- Enwebu Aelod Cymunedol
- Penodi Llywodraethwyr Dynodedig / Pwyllgorau Statudol / Is-bwyllgorau
- Sefydlu gweithgor i edrych ar sefydlu cynllun yn ymateb i adroddiad Mr Leyton Jones
- Buddiannau
- Hyfforddiant
- Taflenni Cofrestr Troseddau
- Cadarnhau a Mabwysiadu Còd Ymddygiad i'r Llywodraethwyr
- Cofnodion / Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Polisïau
- Bws Mini Ysgol Dyffryn Nantlle
- Dyddiadau am weddill y flwyddyn

6:00yh – Nos Fawrth – 23 Hydref 2018 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Adroddiad y Cyngor Ysgol
- Cofnodion / Materion yn codi
- Adroddiad y Gweithgor mewn ymateb i adroddiad Mr Leyton Jones
- Canlyniadau'r Haf
- Amserlen Gormodedd 18/19
- Cynllun Cymorth GwE
- Cynllun gwaredu plastic
- Blychau Is-bwyllgorau
- Diweddariad Bws Mini
- Profiad Gwaith
- Tanysgrifiad Gwasanaeth Llywodraethwyr newydd

6:00yh – Nos Fercher – 14 Tachwedd 2018 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Hyfforddiant Hunan Werthuso

4:30yh – Nos Lun – 10 Rhagfyr 2018 – Is-bwyllgor Cyllid / Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff

- Cyllideb 18/19
- Cyllideb 19/20 – Rhagolygon / Diswyddo oherwydd gormodedd
- Gwobrwyon o Gronfeydd Ysgol Dyffryn Nantlle

6:00yh – Nos Fawrth – 11 Rhagfyr 2018 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Adroddiad Aelodau'r Cyngor Ysgol
- Cofnodion/ Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Rhagolygon Cyllidol / Gormodedd
- Adrodd yn ôl o'r Gweithgor
- Cadarnhau Aelodaeth yr Is-baneli / Cyswllt Llywodraethwr Adrannau
- Dirprwyo Pwerau Cyllidol a phleidleisio i'r Pennaeth
- Polisi Model Cyflog Athrawon
- Hyfforddiant Llywodraethwyr – adrodd yn ôl
- Gosodiadau 2018/19
- Ymgynghoriad ar bolisiau gwisg Ysgol
- Diweddariad bws mini
- Adroddiad y Pennaeth
- Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

6.00yh – Nos Lun – 18 Chwefror 2019 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Ethol Is-gadeirydd

- Gormodedd 18/19

6:00yh – Nos Fawrth – 12 Mawrth 2019 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- Adroddiad disgyblion
- Cyflwyniad ar y gwaith Cynradd / Uwchradd
- Newid i'r Ddeddf ADY newydd
- Cofnodion/Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Aelodaeth y Corff Llywodraethol
- Holiadur Hunan Werthuso Corff Llywodraethu Ysgol
- Polisi Tynnu Lluniau
- Adroddiad y Pennaeth

5.30yh – Nos Fawrth – 18 Mehefin 2019 – Is-bwyllgor Cyllid

- Cyllideb 18/19
- Arlwyaeth 18/19 – pris cinio ysgol
- Cyllideb 19/20
- Servers

6:00yh – Nos Fawrth – 09 Gorffennaf 2019 – Y Corff Llywodraethu Llawn

- System arian cinio - cashless
- Adroddiad y Cyngor Ysgol
- Cofnodion/ Materion yn codi
- Adroddiadau Is-baneli
- Cyllideb 19/20
- Cynllun Datblygu Ysgol 18/19
- Cynllun Offerynnol 19/20
- Adolygu gwaharddiadau disgyblion yn ystod y flwyddyn
- Cytundeb Partneriaeth Awdurdod Lleol ac Ysgol (2018 – 2021)
- Enwebiadau Panel Apel Mynediad ac Apel Gwaharddiadau
- BAC 6ed dosbarth
- Ysgoloriaeth Iwan Huws
- Adroddiad Archwiliad Diogelwch Bwyd
- Hunan Arfarniad Llywodraethwyr
- Gweithgareddau Haf Ysgol Bro Lleu
- Adroddiad y Pennaeth

DIGWYDDIADAU A CHYSYLLTIADAU A'R GYMUNED

Rhestrir isod rai o'r prif weithgareddau

GWEITHGAREDDAU TYMOR YR HYDREF 2018

- Cyflwyniad gan Sarah Schofield o Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Diolch i CAM am drefnu.
- PC Dewi Owen wedi ymweld â'r ysgol i roi cyflwyniad i Fl.10 am gyffuriau ac alcohol.
- Cyflwyniad gan Urdd Gobaith Cymru i ddisgyblion CA3. Sôn am waith yr Urdd a'r gweithgareddau.
- 43 o ddisgyblion Bl 11 wedi mynychu digwyddiad SkillsCymru yn Venue Cymru trwy dydd. Diolch i CAM, DTD a TB am drefnu'r gweithgaredd.
- Katie Gamston o Brifysgol Metropolitan Gaerdydd wedi dod i mewn i'r ysgol er mwyn cynorthywo disgyblion blwyddyn 13 efo ceisiadau UCAS a datganiadau personol.
- Gweithdy Webinar wedi ei gynnal yn yr ysgol – ffocws ar milfeddygaeth-3 disgybl Bl.11 oedd wedi mynychu.
- Noson agored ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 y dalgylch.
- Bl. 12 &13 sy'n astudio'r Gymraeg wedi mynd i Ysgol David Hughes yn y bore - darlithoedd gan Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Diolch i EPH am drefnu.
- Gweithdy Adolygu Bl.11 trwy'r dydd gan Learning Performance yn datblygu sgiliau adolygu a pharatoi ar gyfer arholiadau.
- Ymweliad Hannah Darroch-Bl.9 Ffrangeg. Diolch i SVR am drefnu.
- 16 o ddisgyblion bl 7-10 wedi mynychu twrnament Badminton.
- Disgyblion blwyddyn 8 yn cymrryd rhan mewn perfformiad Shakespeare yn y Galeri yng Nghaernarfon. Diolch i NT, SEB a IAJ am drefnu a chynorthywo.
- Disgyblion blwyddyn 6 y dalgylch i gyd wedi mynychu amrywiol weithgareddau gyda'r adrannau Addysg Gorfforol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Diolch i GL, HGE, ILJ, DJ, DHP, TB, SEB a Peter Bridges o Ysgol Llanllyfni. Roedd y prosiect yma 'Dyffryn Disglair' a drefnwyd ar y cyd gyda'r cynradd yn rhan o'r cynllun Dyfodol Llwyddiannus Cwricwlwm i Gymru. Diolch yn arbennig i Bennaeth Ysgol Bro Lleu a HGE am y gwaith cynllunio.
- Bu criw bach o ddisgyblion blwyddyn 7 ar ymweliad i 'Menai Science Park' ar gyfer lansiad arbennig gwyddonol 'Ocean Rift' sef Rhaglen Realiti Rhithwir yn Ynys Môn. Roedd hwn yn gyfle arbennig i'r disgyblion a bydd dilyniant i hyn o fewn y ddwy flynedd nesaf drwy brosiectau amrywiol gyda Phrifysgol Bangor. Diolch i HGE am drefnu.
- Mae disgyblion yr ysgol wedi cymryd rhan yng nghweithgareddau Plant Mewn Angen ac wedi codi dro £500.00.

GWEITHGAREDDAU TYMOR Y GWANWYN 2019

- Noson dewisiadau blwyddyn 11
- Noson dewisiadau blwyddyn 9
- Ffug arholiadau blwyddyn 12 ac 13
- Ffug arholiadau blwyddyn 11
- Arholiadau Blwyddyn 9
- Gwersi adolygu ôl ysgol
- Arholiadau llafar TGAU Cymraeg a Saesneg
- Arholiadau ymarferol Gwyddoniaeth
- Cystadleuaeth Traws Gwlad Arfon
- Gweminar ar Iechyd a Gofal
- Taith i Lundain. Diolch i'r staff a drefnodd y daith
- Gweithdy Lefel A Saesneg yn Ysgol Eirias, Bae Colwyn
- Gweithgareddau Pontio i flwyddyn 6 a 7 ym Mhrifysgol Bangor
- Ann Williams, Prifysgol Bangor wedi rhoi cyflwyniad i flwyddyn 12 ar lenwi ffurflenni UCAS
- Cyfarfod o'r grŵp SNAG gyda'r Gogyddes
- Cynan Smith a Yannick Evans wedi bod yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Draws Gwlad Cymru yn Aberhonddu
- Twrnamaint Rygbi yng Nghaernarfon
- Gem rygbi Cwpan Eryri gyda disgyblion blwyddyn 10
- Cyflwyniad i'r 6ed ar Pass Plus
- Cwmni iaith wedi cynnal arolwg gyda disgyblion y 6ed ar y ddarpariaeth ôl 16
- Bu Blwyddyn 7 yn casglu bwyd yn yr ysgol tuag at Fanc Bwyd, Caernarfon
- Taith i ddisgyblion y 6ed i Pontio i drafodaeth ar y ffilm Hedd Wyn
- Taith i weld y ddrama Anweledig yn Pontio.
- Diwrnod trwynau Coch
- Gwobrau PICS, Galeri Caernarfon 28ain o Chwefror. Enillodd disgyblion iau'r ysgol yn y categori iau, Hedydd Ioan am y ffilm orau oedran Uwchradd a Celyn Roberts yn ail iddo. Llwyddodd Owain Pritchard, cyn ddisgybl yn yr ysgol i gipio tair gwobr, sef am y ffilm animeiddio orau, categori dewis y bobl a ffilm orau Wŷl.

- Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgaredd graffiti dros yr hanner tymor. Peintiwyd dau furlun ar waliau'r Llyfrgell ym Mhenygroes.
- Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 yn agoriad swyddogol yr Orsaf. Bu'r disgyblion yn cynorthwyo i gael yr adeilad yn barod ar gyfer menter Nantlle 2020.
- Cynhaliwyd cylch arsylwi gwersi 12.03.19. Bydd adroddiad crynodol yn cael ei gynhyrchu yn dilyn yr ymarferiad.
- Cyflwyniad i fyfyrwyr y 6ed ar Gyllid Myfyrwyr.
- Bu i ddisgyblion blwyddyn 9 ymweld â'r Colegau Llandrillo Menai.
- Mae rhai o ddisgyblion yr ysgol yn rhan o gynllun Profi.
- Cynhaliwyd diwrnod dathlu Pi rhyngwladol gyda disgyblion blwyddyn 7.

GWEITHGAREDDAU TYMOR YR HAF 2019

- Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi Bl.7 ar ennill plât Ysgolion Eryri yn ddiweddar
- Cynhaliwyd Mabolgampau'r ysgol. Diolch i Mr Gethin Long a Miss Sara Bailey am drefnu
- Gwaith Maes Daearyddiaeth i flwyddyn 7
- Bu rhai o ddisgyblion blynyddoedd 8,9 a 10 yn cymryd rhan mewn gweithdai Seren yn ddiweddar. Caiff y Cynllun Seren ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n targedu'r disgyblion mwyaf abl a thalentog yn ysgolion Gwynedd a Môn. Bydd cyfres o weithdai iddynt eu mynychu'r flwyddyn nesaf.
- Bu'r adrannau Hanes, Cerdd a Chelf yn cydweithio'n ddiweddar ar brosiect yn ymwneud ag amodau gwaith pobl yn y chwareli. Fel rhan o'r gwaith, bu disgyblion Bl.8 ar daith i ymweld â Phwll Rhyw Bach, ym mhendraw Cwm Penmachno. Treuliwyd pedair awr o dan ddaear er mwyn cael blas o'r amodau gwaith a'r sialensiau oedd wynebu'r chwarelwyr o dan ddaear. Diolch i Mrs Nia Powell Jones, Mr Gareth Hughes a Mr Dylan Owen am drefnu.
- Cynhaliwyd seremoni Ffeil Cynnydd i ddisgyblion blwyddyn 11. Cynhaliwyd Prom i ddisgyblion Bl. 11 ym Meifod, Bontnewydd.
- Bu disgyblion Bl.12 yn mynychu Cynhadledd 6ed dosbarth ym Mhrifysgol Bangor.
- Cynhaliwyd gweithdy i ddisgyblion blwyddyn 9 gyda Bethan Gwanas a Lleucu Roberts.
- Cafodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 gyfle i gymryd rhan yng nghwrs TOP Prifysgol Bangor.
- Bu criw o ddisgyblion blwyddyn 10 yn ymweld â Phrifysgol Bangor ar gyfer cwrs TOP
- Cynhaliwyd wythnos weithgareddau yn ystod yr wythnos yn cychwyn Gorffennaf yr 8fed
- Bu Prifysgol Bangor i mewn yn cynnal gweithgareddau STEM i ddisgyblion blwyddyn 7 yr ysgol. Cafwyd gweithdai arbennig o dda a'r disgyblion wedi mwynhau'n fawr.
- Cynhaliwyd Showcase CA2/CA3 10fed o Orffennaf yn Neuadd yr Ysgol.
- Cynhaliwyd noson Wobrwyo'r ysgol nos Fawrth, Gorffennaf 16eg. Bu i bob adran enwebu disgybl i dderbyn medal a thystysgrif ar y noson.
- Crëwyd ffilm gan Joshua Williams, Bl.8 ar gyfer Cynhadledd Adfywio Cymru yn ymwneud a phwysigrwydd edrych ar ôl y blaned a chychwyn wrth ein traed yma yn YDN Derbyniwyd canmoliaeth fawr i'r gwaith a wnaethpwyd ganddo.
- Bu Talk the Talk i mewn yn cynnal gweithdai i hybu llefaredd trwy gyfrwng y Saesneg gyda disgyblion Bl.9
- Trefnwyd tripiau i Flipout, Sw Caer, Canolfan Sgïo Manceinion ac Alton Towers
- Bu disgyblion Bl.10 a 12 allan ar brofiad gwaith yn ystod y tymor. Diolch i'r holl gyflogwyr am dderbyn y disgyblion ac i Miss Clare McDermott am gymryd trosolwg o'r cynllun.
- Cynhaliwyd gweithgareddau Criw Craidd gyda disgyblion Bl.7. Bu nifer o wahanol asiantaethau yn cymryd rhan yn y diwrnod.
- Cynhaliwyd prosiect STEM Pontydd gydag ysgolion cynradd y dalgylch a'r CITB. Elwodd y disgyblion yn fawr o'r profiad. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos yn y showcase ar Orffennaf 10fed.
- Bu rhai o ddisgyblion yr Ysgol yn cystadlu mewn cystadleuaeth Beicio Mynydd yn Llanberis yn ddiweddar.
- Sefydlwyd côr Ysgol ar gyfer staff, disgyblion, rhieni a chyn-ddisgyblion yr Ysgol. Bu'r côr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst mis Awst.
- Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd yr Ysgol Gorffennaf 11eg, trefnwyd y noson gan Gyfeillion yr Ysgol sydd wedi cael ei ail sefydlu yn ddiweddar.

CLYBIAU A CHYMDEITHASAU

Mae amrywiaeth eang o'r rhain yn yr ysgol - gymnasteg, corau, gweithgareddau'r Urdd, Clwb Crwydro etc. Anogir pob disgybl i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma.

CHWARAEON

Mae Addysg Gorfforol o safbwynt iechyd, ffitrwydd a hamdden ein disgyblion, yn bwysig iawn yng nghwricwlwm yr ysgol a chynigir llawer iawn o brofiadau gwahanol. Mae'r pwyslais ar lwyddiant yr unigolyn a gwaith tîm a'r cyfleoedd allgyrsiol, yn sylweddol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol bydd nifer o'n disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored mewn ysgolion neu leoliadau eraill.

EISTEDDFOD

Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar 20fed o Ragfyr, 2018. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn eto eleni. Roedd y Neuadd dan ei sang yn ystod y bore, y prynhawn a'r hwyr. Diolch i bawb a weithiodd mor galed er mwyn sicrhau'r llwyddiant hwn eleni. Diolch yn arbennig i aelodau'r chweched dosbarth am eu gwaith dygn ac i'r beirniaid hwythau am eu gwaith trylwyr sef Miss Grug Muse - Llen a Llefaru a Mrs Einir Wyn Jones - Cerddoriaeth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ddiflino yn flynyddol yn ddisgyblion, yn athrawon, yn rhieni a thrigolion Dyffryn Nantlle.

ENILLWYR Y TLYSAU/ TARIANNAU 2018

- CWPAN DRAMA ERYRI I'W CHYFLWYNO I'R SGETS FUDDUGOL: LLYFNWY
- TLWS NIA, ANGHARAD, SHARON, NIA, DERFEL A RICHARD 1996 I'W GYFLWYNO I'R DDEIALOG/ YMGOM ORAU: LLYFNWY
- TLWS KAREN OWEN AC ARWYN EVANS I'W GYFLWYNO I ENILLYDD Y GYSTADLEUAETH SIARAD CYHOEDDUS: HEDYDD IOAN, LLYFNWY
- TLWS CRIW DULYN I'W GYFLWYNO I'R MEIM MWYAF GWREIDDIOL: LLYFNWY
- TLWS Y PARCH. TEGID ROBERTS I'W GYFLWYNO I'R CYSTADLEUYDD UCHAF EI FARCIAU O DŶ DULYN: SAM WILLIAMS, DULYN
- CWPAN ERFYL FYCHAN I'W GYFLWYNO I'R CYSTADLEUYDD MWYAF ADDAWOL YN YR ADRAN LEFARU: HEDYDD IOAN, LLYFNWY
- CWPAN EVELYN AC ARWYN MORGAN I'W GYFLWYNO I'R CANWR/CANTORES MWYAF ADDAWOL YN YR ADRAN GERDD: CELYN ROBERTS, LLYFNWY
- CWPAN ANGHARAD WYN I'W GYFLWYNO I'R OFFERYNNYDD MWYAF ADDAWOL: LLEUCU NON, LLYFNWY
- TLWS ER COF AM NOEL ROBERTS I'R UNIGOLYN GORAU O FEWN MEIM: DEIO TERFEL, LLYFNWY
- CWPAN HYWEL ROBERTS I'W CHYFLWYNO I'R CÔR BUDDUGOL: LLYFNWY
- ENILLWYR TLYSAU ADRAN Y GYMRAEG: LLEUCU NON, LLYFNWY. CADI EVANS, SILYN
- Y RHUBAN GLAS OFFERYNNOL YN RHODDEDIG GAN DEULU Y FONES ILID ANN JONES: CARADOG JONES, LLIFON
- TARIAN YR EISTEDDFOD I'R TŶ BUDDUGOL: LLYFNWY

YSGOL DYFFRYN NANTLLE

2018/2019

CYLLIDEB / *BUDGET*

GWEITHWYR / *STAFF*		
Athrawon / *Teachers*	£1,461,082	
Staff Ategol Misol / *Monthly Administrative Staff*	£160,288	
Uwch Gymorthyddion/ Cymorthyddion ADY / *SEN Assistant / Higher Level Assistant*	£154,032	
Uwch Oruchwylwyr / *Senior Supervisors*	£9,419	
Swyddog Rygbi / *Rugby Hub Officer*	£2,693	
Arolygwyr Arholiadau / *Examinations Invigilators*	£8,000	
Cynllun Absenoldebau Ysgolion / *Schools Absence Scheme*	£10,000	
Llanw / *Supply*	£52,000	
Recriwtio / *Recruit*	£500	**£1,858,014**
ADEILADAU / *BUILDINGS*		
Cynnal a Chadw / *Repairs and Maintenance*	£30,910	
Dodrefn / *Furniture*	£5,000	
Cynllun Rheoli Carbon / *Carbon Management Plan*	£7,685	
Offer Ymladd Tân / *Fire Fighting Equipment*	£1,433	
Contract Glanhau / *Cleaning Contract*	£48,970	
Trethi / *Rates*	£47,280	
Trydan / *Electricity*	£17,500	
Nwy / *Gas*	£11,000	
Dwr / *Water*	£2,500	**£172,278**
CLUDIANT / *TRANSPORT*		
Lwfansau Ceir / *Car allowance*	£2,000	
Cludiant Disgyblion / *Pupil Transportation*	£25,000	
Bysiau / *Buses*	£3,000	**£30,000**
LWFANS Y PEN / *CAPITATION*	£106,130	**£106,130**
GWASANAETHAU / *SERVICES*		
Arholiadau / *Examinations*	£60,000	
Post / *Post*	£2,600	
Ffôn / *Telephone*	£3,000	
Canolfan Hamdden / *Leisure Centre*	£18,000	
Cynllun Gofal Plant / *Childcare Scheme*	£600	
Gwersi Offerynnau Cerdd / *Music Instrument Lessons*	£6,500	

Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion / Schools' Network Service	£10,665	
Cytundeb Llyfrgell/ *Library Contract*	£533	
CYNNAL - Cyfanswm/Total: Cytundeb Technoleg / *Technology Contract*	£23,226	
CYNNAL - Profion Trydannol / *Electrical Testing*	£1,800	
Cynnal Tiroedd / *Ground Maintenance*	£8,890	
Gwasanaeth Arlwyo / *Catering Service*	£42,277	
Cytundebau Rheoli Banc ayb, Cyngor Ariannol, Cyflogau a Phersonél/ *Bank Control etc, Financial Advice, Salary and Personnel Contracts*	£5,624	**£183,715**
ARIAN WRTH GEFN / *RESERVES*		**£11,052**
CYFANSWM GWARIANT / *TOTAL EXPENDITURE*		**£2,361,189**
INCWM / *INCOME*		
Gosodiadau / *Lettings*	-£6,600	
Tanwariant 2016/2017 / *Underspent 2016/2017*	-£109,107	
Grant Gwella Addysg/ *Education Improvement Grant*	-£20,465	
Grant Datblygu Disgyblion / *Pupils Development Grant*	-£55,200	
Ad-daliad Pecyn 25 / *Pecyn 25 refund*	-£4,084	
CYFANSWM INCWM / TOTAL INCOME		-£195,456
CYFANSWM GWARIANT NET / *NET EXPENDITURE TOTAL*		**£2,165,733**
CYFANSWM DYRANIAD / *TOTAL ALLOCATION*		**£2,165,733**

CALENDR DIGWYDDIADAU 2019/20

MEDI / *SEPTEMBER* 2019		
2/3		Hyfforddiant mewn swydd / *Inset day*
4		Diwrnod cyntaf tymor yr Hydref / *First day of Autumn term*
9		Cyrsiau allanol yn cychwyn / *External courses begin*
19		Noson cyflwyno UCAS Bl.13 / *UCAS presentation evening 6pm*
30		Hyfforddiant mewn swydd / *Inset day*
HYDREF / *OCTOBER* 2019		
28.10.19		**Gwyliau Hanner Tymor**
-1.11.19		***Half Term Holidays***
TACHWEDD / *NOVEMBER* 2019		
4 - 13		Arholiadau TGAU (Ail sefyll) / *GCSE examinations (resits)*
5		Diwrnod gweithgareddau Bl.6 / *Yr.6 activities day*
6		Diwrnod gweithgareddau Bl.5 / *Yr.5 activities day*
12		Noson agored Bl.6 / *Yr.6 open evening 4-6pm*
19		Noson rhieni Bl.11 / *Yr.11 parents evening*
RHAGFYR / *DECEMBER* 2019		
2-10		Arholiadau ffug Bl.11 / *Yr.11 mock examinations*
3		Cyfarfod Rhieni Bl. 12/13 / *Meeting for Yr. 12/13 parents*
4		Fforwm Rhieni / *Parents Forum*
19		Eisteddfod yr Ysgol / *School Eisteddfod*
23.12.19		**Gwyliau'r Nadolig**
- 3.1.20		***Christmas Holidays***
IONAWR / *JANUARY* 2020		
6		Diwrnod cyntaf tymor y Gwanwyn / *First day of Spring term*
7 - 10		Arholiadau TGAU / *GCSE Examinations*
13 - 17		Arholiadau Ffug CA5 / *KS5 Mock Examinations*
14		Noson Rhieni Bl.7 / *Meeting for Yr.7 Parents*
30		Cyflwyno UCAS Bl.12 / Yr.12 Introduction to UCAS
CHWEFROR / *FEBRUARY* 2020		
3 - 7		Arholiadau Bl. 9 / *Yr. 9 Examinations*
6		Noson Rhieni Bl.11 (Dewisiadau) / *Meeting for Yr. 11 Parents (Options)*
17 - 21		**Gwyliau Hanner Tymor / *Half Term Holidays***
27		Noson Rhieni Bl.9 (Dewisiadau) / *Meeting for Yr. 9 Parents (Options)*
MAWRTH / *MARCH* 2020		
9 - 16		Arholiadau Ffug Bl.11 / *Yr.11 Mock Examinations*
10		Noson Rhieni Bl. 9 / *Yr. 9 Parents Meeting*
13		Hyfforddiant mewn swydd / *Inset day*
23 - 27		Arholiadau Ffug Bl.10 / *Yr.10 mock examinations*
24		Noson Rhieni Bl. 8 / *Yr.8 parents evening*
EBRILL / *APRIL* 2020		
6 - 17		**Gwyliau Pasg / *Easter Holidays***
21		Noson Rhieni Bl.10 / *Yr. 10 Parents Meeting*
27.4.20		Arholiadau Bl. 7 ac 8. Profion Cenedlaethol

-07.5.20		*Yr. 7 and 8 Examinations. National Tests*
MAI / *MAY* 2020		
1		Hyfforddiant mewn swydd / *Inset day*
5		Arholiadau TGAU yn cychwyn / *GCSE examinations begin*
8		**Gŵyl y Banc Calan Mai / *May Day Bank Holiday***
11		Diwrnod olaf Bl.12 / *Last day for Yr. 12*
11		Arholiadau UG / *AS Examinations*
18		Arholiadau Safon Uwch (rhai pynciau) / *A Level Examinations (some subjects)*
22		Diwrnod olaf Bl.11 / *Last day for Yr.11*
25-29		**Gwyliau Hanner Tymor / *Half Term Holidays***
MEHEFIN / *JUNE* 2020		
2		Arholiadau UG yn darfod / *End of AS examinations*
12		Diwedd Arholiadau TGAU / *End of GCSE examinations*
15		Diwedd Arholiadau Safon Uwch / *End of A Level Examinations*
22 - 23		Ymweliad Bl.6 / *Yr.6 visit*
22 - 26		Profiad gwaith Bl.12 / Yr.12 Work experience
22 – 26		Arholiadau ffug Bl.10 / *Yr.10 mock examinations*
GORFFENNAF / *JULY* 2020		
6 - 10		Profiad Gwaith Bl. 10 / *Yr. 10 Work Experience*
13 - 17		Wythnos gweithgareddau / *Activity week*
13		Noson rieni Bl.6 / Yr.6 parents meeting 6pm
17		Diwrnod olaf y tymor / *Last day of term*
20		**Gwyliau'r Haf yn cychwyn / *Summer Holidays commence***
AWST / *AUGUST 2020*		
13		**Canlyniadau UG ac Uwch**
		AS and A level results
20		**Canlyniadau TGAU**
		GCSE results

Ysgol Dyffryn Nantlle **2019**

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1) **Rhif ALl/Ysgol** **661 / 4007**

Disgyblion yn blwyddyn 11

Nifer y disgyblion yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019 : **52**

Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul disgybl:

	Mesur Capio 9 (interim)	Y mesur llythrennedd	Y mesur rhifedd	Y mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
Ysgol 2018/19	337	40	34	35	33
Ardal 2018/19	..	. .	. .	. .	..
Cymru 2018/19	..	. .	. .	. .	..
Ysgol 17/18/19	..	42	37	38	..
Ysgol 16/17/18	..	..	..	..	..

Nifer y bechgyn yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019 : **28**

Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul bachgen:

	Mesur Capio 9 (interim)	Y mesur llythrennedd	Y mesur rhifedd	Y mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
Ysgol 2018/19	335	39	35	35	29
Ardal 2018/19	..	. .	. .	. .	..
Cymru 2018/19	..	. .	. .	. .	..
Ysgol 17/18/19	..	40	37	38	..
Ysgol 16/17/18	..	..	..	..	..

Nifer y merched yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2019 : **24**

Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul merch:

	Mesur Capio 9 (interim)	Y mesur llythrennedd	Y mesur rhifedd	Y mesur gwyddoniaeth	Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
Ysgol 2018/19	339	42	33	35	37
Ardal 2018/19	..	. .	. .	. .	..
Cymru 2018/19	..	. .	. .	. .	..
Ysgol 17/18/19	..	45	36	38	..
Ysgol 16/17/18	..	..	..	..	..

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler gwefan Cymwysterau Cymru (QiW) http://www.qiw.wales/

(2) Am fanylion ar gyfrifo'r dangosyddion hyn gweler y nodyn cyfarwyddyd yn: https://llyw.cymru/trefniadau-interim-perfformiad-ysgolion-yng-nghyfnod-allweddol-4

.. Data ddim ar gael.

Ysgol Dyffryn Nantlle **2019**

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1) **Rhif ALl/Ysgol 661 / 4007**

Disgyblion 17 oed

	Nifer y disgyblion 17 oed a oedd ar y gofrestr yn		**Nifer y bechgyn 17 oed a oedd ar y gofrestr yn**		**Nifer y merched 17 oed a oedd ar y gofrestr yn**	
	Ionawr 2019:	**34**	**Ionawr 2019:**	**11**	**Ionawr 2019:**	**23**
	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed	Canran y disgyblion 17 oed a gofrestrodd am gyfaint o ddysgu yn gyfartal i 2 lefel A ac yn ennill y trothwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau gyfartalog eang am bob disgybl 17 oed
Ysgol 2018/19	100	893	100	767	100	952
Ardal 2018/19	. .	. .	. .	. .	. .	. .
Cymru 2018/19	. .	. .	. .	. .	. .	. .
Ysgol 17/18/19	99	813	97	789	100	827
Ysgol 16/17/18	..	..	..	..	..	..

	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-A neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-C neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-A neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-C neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-A neu cyfatebol	Cyflawni 3 neu fwy lefel A gradd A*-C neu cyfatebol
Ysgol 2018/19	12	62	9	27	13	78
Ardal 2018/19	. .	. .	. .	. .	. .	. .
Cymru 2018/19	. .	. .	. .	. .	. .	. .
Ysgol 17/18/19	11	54	11	37	10	63
Ysgol 16/17/18	..	..	..	..	..	..

(1) I gael manylion ar gymhwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y throthwy, gweler gwefan Cymwysterau Cymru

(QiW) http://www.qiw.wales/

.. Data ddim ar gael.